*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

# 2023 Rhif (Cy. )

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/646 (Cy. 120)) ("y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid") a Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/650 (Cy. 122)) ("y Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid") (gyda'i gilydd, "Rheoliadau 2018"). Mae'r diwygiadau'n addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru o dan Reoliadau 2018 ar gyfer gwasanaethau a ddarperir ym maes iechyd anifeiliaid gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion i adlewyrchu swm adennill cost lawn y gwasanaethau hynny.

Mae rheoliad 2(4) yn diwygio'r Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid i ddirymu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am ddogfennau adnabod gwag a gwasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â darparu dogfennau adnabod pasbortau anifeiliaid anwes.

Mae rheoliad 2(5) yn diwygio'r Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid i addasu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Cynyddir y ffioedd, pan gynyddir hwy, yn ôl y codiad cyfartalog canolig, sef 41%, o'r ffioedd

presennol mewn dau gam: mae’r cynnydd cyntaf yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny, ac mae’r ail gynnydd yn gymwys ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny.

Mae rheoliad 3(6) yn diwygio’r Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid i addasu’r ffioedd sy’n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â rheolaethau salmonela. Cynyddir y ffioedd, pan gynyddir hwy, yn ôl y codiad cyfartalog canolig, sef 53%, o’r ffioedd presennol mewn dau gam: mae’r cynnydd cyntaf yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny, ac mae’r ail gynnydd yn gymwys ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny.

Mae rheoliad 3(7) yn diwygio’r Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid i addasu’r ffioedd sy’n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â’r cynllun iechyd dofednod. Cynyddir y ffioedd yn ôl y codiad cyfartalog canolig, sef 21%, o’r ffioedd presennol. Mae rheoliad 3(7)(a) yn cynyddu ffioedd penodol y cynllun iechyd dofednod mewn dau gam: mae’r cynnydd cyntaf yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny, ac mae’r ail gynnydd yn gymwys ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny. Mae rheoliad 3(7)(b) yn cynyddu gweddill ffioedd penodedig y cynllun iechyd dofednod mewn un cam, ac mae’r cynnydd yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny.

Mae rheoliadau 3(8) i (10) yn diwygio’r Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid i addasu’r ffioedd sy’n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â rheolaethau bridio artiffisial. Cynyddir y ffioedd yn ôl y codiad cyfartalog canolig, sef 65%, o’r ffioedd presennol mewn dau gam: mae’r cynnydd cyntaf yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny, ac mae’r ail gynnydd yn gymwys ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny.

Mae rheoliad 3(11) yn diwygio’r Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid i addasu’r ffioedd sy’n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a gyflawnir mewn perthynas â safleoedd rheoli ar y ffin. Cynyddir y ffioedd yn ôl y codiad cyfartalog canolig, sef 34%, o’r ffioedd presennol mewn un cam, ac mae’r cynnydd yn gymwys ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny.

Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Reoliadau 2018.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Swyddfa’r Prif

Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2023 Rhif (Cy. )

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *5 Gorffennaf 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7(2) o Atodlen 4 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**) ("Deddf 2018") a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 iddi, ac adran 10 o Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984(**2**) ("Deddf 1984").

(**1**) 2018 p. 16; gweler paragraff 8 o Atodlen 4 am ystyr "appropriate authority". Diwygiwyd paragraff 8 o Atodlen 4 i Ddeddf 2018 gan adran 41(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020") a pharagraff 47(5) o Atodlen 5 iddi. Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan adran 41(4) o Ddeddf 2020 a pharagraffau 38 a 53(2) o Atodlen 5 iddi.

(**2**) 1984 p. 40. Diwygiwyd adran 10 gan Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1993 (p. 50) a Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p. 44). Mae adran 10(8) yn diffinio "appropriate Minister" o ran Cymru fel yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion adran 10. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Yn unol â pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**1**).

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023 a deuant i rym ar 5 Gorffennaf 2023.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at rif safle rhes mewn tabl yn gyfeiriad at ei safle heb gyfrif y rhes sy'n cynnwys penawdau colofnau'r tabl hwnnw.

### Diwygio Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Ffioedd) (Cymru) 2018

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid a Phasbortau Anifeiliaid Anwes (Ffioedd) (Cymru) 2018(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2, ar ôl y diffiniad o "Rheoliad Rheolaeth yr UE" mewnosoder—

> "ystyr "Rheoliad Rheolaethau Swyddogol" ("*Official Controls Regulation*") yw Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Mawrth 2017 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith o ran bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ynghylch iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion(**3**);".

(3) Yn rheoliad 4—

(a) ym mharagraff (2), yn lle "Erthygl 45 o Reoliad Rheolaeth yr UE" rhodder "Erthygl 20 o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol";

(b) ym mharagraff (3), ar ôl "Rheoliad Rheolaeth yr UE" mewnosoder "neu'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol".

(4) Hepgorer rheoliad 5.

(5) Yn yr Atodlen—

(a) yn Nhabl 1, yn lle'r ail a'r drydedd golofn rhodder—

| "*Ffi (£) am geisiadau sy'n* | *Ffi (£) am geisiadau* |
|---|---|

(**1**) Mae'r cyfeiriadau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**2**) O.S. 2018/646 (Cy. 120).

(**3**) EUR 2017/625 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1481, O.S. 2022/621, O.S. 2022/846, O.S. 2022/1090 ac O.S. 2022/1315.

| | |
|---|---|
| *dod i law ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024* | *sy'n dod i law ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny* |
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 132 | 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 132 |
| 12 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 72 | 12 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 72 |
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir | 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir |
| 11 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir | 11 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir |
| 21 am bob anfoneb | 21 am bob anfoneb |
| 2,134.50 | 2,484 |
| 1,147 | 1,343 |
| 1,147 | 1,343 |
| 586 | 687 |
| 586 | 687 |
| 476 | 557 |
| 476 | 557"; |

(b) yn Nhabl 2—

(i) ym mhennawd y tabl, yn lle "Erthygl 45 o Reoliad Rheolaeth yr UE" rhodder "Erthygl 20 o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol";

(ii) yn y golofn gyntaf, yn lle "Reoliad Rheolaeth yr UE", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol";

(iii) yn lle'r ail a'r drydedd golofn rhodder—

| | |
|---|---|
| "*Ffi (£) am ymweliadau safle at ddibenion arolygu a gynhelir ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024* | *Ffi (£) am ymweliadau safle at ddibenion arolygu a gynhelir ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny* |
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 132 | 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir hyd at uchafswm o 132 |
| 11 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir | 11 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir |
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir | 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir |
| 12 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir | 12 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreulir |
| 11 am bob chwarter awr | 11 am bob chwarter awr |

| | |
|---|---|
| neu ran o chwarter awr a dreulir | neu ran o chwarter awr a dreulir |
| 188 am bob ymweliad | 219 am bob ymweliad |
| 752 y flwyddyn | 876 y flwyddyn |
| 2,256 y flwyddyn | 2,628 y flwyddyn”. |

**Diwygio Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) yn lle "“arolygfa ffin” (“*border inspection post*”)” rhodder "“safle rheoli ar y ffin” (“*border control post*”)”;

(b) yn lle’r diffiniad o “cynllun iechyd dofednod” rhodder—

“ystyr “cynllun iechyd dofednod” (“*poultry health scheme*”) yw’r cynllun a sefydlwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy’n llywodraethu allforio neu symud adar neu wyau deor i’r UE, Gogledd Iwerddon neu wledydd penodedig nad ydynt yn yr UE, a gyhoeddwyd ar 22 Gorffennaf 2021(**2**);”.

(3) Ar ôl rheoliad 2 mewnosoder—

**“Y ffi sy’n daladwy pan fo gweithgaredd yn cael ei gyflawni dros gyfnod pan fo ffioedd gwahanol yn gymwys**

**2A.** Os cyflawnir unrhyw weithgaredd y mae ffi yn daladwy ar ei gyfer o dan y Rheoliadau hyn dros gyfnod pan fo ffioedd gwahanol yn gymwys, y ffi sy’n daladwy mewn perthynas â’r gweithgaredd hwnnw yw—

(a) pan fo’r gweithgaredd yn cael ei gyflawni fel rhan o gais, y ffi sy’n gymwys ar y dyddiad y daw’r cais i law;

(b) fel arall, y ffi sy’n gymwys ar y dyddiad y dechreuir y gweithgaredd.”

---

(**1**) O.S. 2018/650 (Cy. 122), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/737 (Cy. 140) ac O.S. 2022/1348 (Cy. 271).

(**2**) Mae copi o lawlyfr y cynllun iechyd dofednod ar gael ar-lein ar https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1012365/phs-handbook.pdf. Gellir cael copi caled o’r cynllun iechyd dofednod drwy ysgrifennu at yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn: The Animal and Plant Health Agency, Poultry Health Scheme Team, Customer Service Centre – One Health, Level 1 County Hall, Spetchley Road, Worcester WR5 2NP neu drwy anfon e-bost i CSCOneHealthPHS@apha.gov.uk.

(4) Yn rheoliadau 4(2)(a), (b) ac (c), 5(2)(a), 6(3), 7(2) ac 8(2), ar ôl “yng ngholofn 2” mewnosoder “neu golofn 3”.

(5) Yn rheoliad 9, ac ym mhennawd y rheoliad hwnnw, yn lle “arolygfeydd ffin” rhodder “safleoedd rheoli ar y ffin”.

(6) Yn Atodlen 1—

(a) yn Nhabl 1—

(i) yn lle Colofn 2 rhodder—

| “*Colofn 2*<br>*Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024* |
|---|
| 12 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd |
| 12 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 72 |
| 41 |
| 68 |
| 95 |
| 18 am bob sampl a brofwyd (nid yw’r ffi amser yn gymwys)”; |

(ii) ar ôl Colofn 2 mewnosoder—

| “*Colofn 3*<br>*Ffi (£) ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny* |
|---|
| 12 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd |
| 12 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 72 |
| 49 |
| 83 |
| 117 |
| 21 am bob sampl a brofwyd (nid yw’r ffi amser yn gymwys)”; |

(b) yn lle Tabl 2 rhodder—

**“Tabl 2**

| **Ffioedd sy’n daladwy gan weithredwr labordy mewn perthynas â chymeradwyaeth o dan Erthygl 12 o Reoliad (EC) Rhif 2160/2003** | | |
|---|---|---|
| *Colofn 1*<br>*Gweithgaredd* | *Colofn 2*<br>*Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024* | *Colofn 3*<br>*Ffi (£) ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny* |
| Prosesu cais am gymeradwyaeth gychwynnol i labordy, neu am adnewyddiad dwyflynyddol o gymeradwyaeth | 86 | 86 |

| | | |
|---|---|---|
| labordy | | |
| Cynnal arolygiadau ar gyfer gwaith sicrhau ansawdd | 688 am bob ymweliad | 1,025 am bob ymweliad |
| Cynnal profion cydweithredol ar gyfer *Salmonela* fel sy'n ofynnol i gael cymeradwyaeth fel labordy profi, a chadw'r gymeradwyaeth honno | 44 am bob prawf | 44 am bob prawf "; |

(c) yn Nhabl 3—

(i) yn lle Colofn 2 rhodder—

| "*Colofn 2*<br>*Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024* |
|---|
| 123 |
| 3,203 |
| 3,517"; |

(ii) ar ôl Colofn 2 mewnosoder—

| "*Colofn 3*<br>*Ffi (£) ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny* |
|---|
| 146 |
| 3,936 |
| 3,954". |

(7) Yn Atodlen 2—

(a) yn Nhabl 1—

(i) yn lle Colofn 2 rhodder—

| "*Colofn 2*<br>*Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024* |
|---|
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd |
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 132 |
| 82 (nid yw'r ffi amser yn gymwys) |
| 49 |
| 62 |
| 35 |
| 61 (nid yw'r ffi amser yn gymwys) |
| 34 (nid yw'r ffi amser yn gymwys)"; |

(ii) ar ôl Colofn 2 mewnosoder—

| "*Colofn 3*<br>*Ffi (£) ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny* |
|---|
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd |

| |
|---|
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 132 |
| 108 (nid yw'r ffi amser yn gymwys) |
| 71 |
| 67 |
| 39 |
| 67 (nid yw'r ffi amser yn gymwys) |
| 39 (nid yw'r ffi amser yn gymwys)"; |

(b) yn Nhabl 2, yn lle Colofn 2 rhodder—

| "*Colofn 2*<br>*Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny* |
|---|
| 86 |
| 158 am bob prawf |
| 310 am bob prawf |
| 310 am bob prawf |
| 280 am bob prawf |
| 310 am bob prawf". |

(8) Yn y Tabl yn Atodlen 3—

(a) yng Ngholofn 1—

(i) yn y bedwaredd res yn lle "canolfan gasglu CE" rhodder "canolfan gasglu drwyddedig";

(ii) yn y bumed res yn lle "canolfan gwarantin CE" rhodder "canolfan gwarantin drwyddedig";

(iii) yn y chweched res—

(aa) yn lle "canolfan gasglu CE" rhodder "canolfan gasglu drwyddedig";

(bb) yn lle "neu ganolfan storio CE" rhodder "neu ganolfan storio drwyddedig";

(iv) yn yr wythfed res yn lle "at ddefnydd domestig neu ddefnydd y CE" rhodder "at ddefnydd domestig neu at ddefnydd masnachu ag Aelod-wladwriaeth".

(b) yn lle Colofn 2 rhodder—

| "*Colofn 2*<br>*Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024* |
|---|
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd |
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 132 |
| 27 |
| 35 |
| 39 |
| 37 |
| 23 |
| 31"; |

(c) ar ôl Colofn 2 mewnosoder—

| “*Colofn 3*<br>*Ffi (£) ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny* |
|---|
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd |
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 132 |
| 33 |
| 44 |
| 48 |
| 46 |
| 28 |
| 38”. |

(9) Yn Atodlen 4, yn y Tabl—

(a) yn lle Colofn 2 rhodder—

| “*Colofn 2*<br>*Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024* |
|---|
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd |
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 132 |
| |
| 42 am bob baedd |
| |
| 31 am bob baedd |
| |
| 37 |
| 34 |
| 23”; |

(b) ar ôl Colofn 2 mewnosoder—

| “*Colofn 3*<br>*Ffi (£) ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny* |
|---|
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd |
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 132 |
| |
| 53 am bob baedd |
| |
| 38 am bob baedd |
| |
| 46 |
| 42 |
| 28”. |

(10) Yn Atodlen 5, yn y Tabl—

(a) yn y drydedd res o Golofn 1—

(i) ar ôl y geiriau “tîm trosglwyddo embryonau buchol” mewnosoder “o dan reoliad 4 o Reoliadau 1995”;

(ii) hepgorer “storfa o dan reoliad 13 o Reoliadau 1995;”;

(iii) ar ôl y geiriau “(gan gynnwys arolygu labordy neu beidio)” mewnosoder “o dan reoliad 6 neu 7 o Reoliadau 1995”;

(b) yn lle Colofn 2 rhodder—

| “*Colofn 2*<br>*Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny ond cyn 1 Gorffennaf 2024* |
|---|
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd |
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 132 |
| 38 |
| 13 |
| 34 |
| 23 |
| 6 am bob tîm ychwanegol a phob labordy neu storfa ychwanegol”; |

(c) ar ôl Colofn 2 mewnosoder—

| “*Colofn 3*<br>*Ffi (£) ar 1 Gorffennaf 2024 neu ar ôl hynny* |
|---|
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd |
| 22 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 132 |
| 47 |
| 16 |
| 42 |
| 28 |
| 7 am bob tîm ychwanegol a phob labordy neu storfa ychwanegol”. |

(11) Yn Atodlen 6—

(a) ym mhennawd yr Atodlen honno ac ym mhennawd Tabl 1, yn lle “arolygfeydd ffin” rhodder “safleoedd rheoli ar y ffin”;

(b) yn lle Tabl 1 rhodder—

| “*Colofn 1*<br>*Arolygu math o anifail a gwirio dogfennau* | *Colofn 2*<br>*Ffioedd (£) am bob llwyth ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny* |
|---|---|
| Dofednod ac adar hela bach | 53 |
| Dofednod – mewnforion wyau rheolaidd | 53 |
| Ratidau | 53 |
| Adar caeth | 61 |
| Pysgod byw, anifeiliaid dyfrol ac amffibiaid | 48 |
| Gwenyn | 40 |
| Cwningod a chnofilod | 44 |

| | |
|---|---|
| Pryfed eraill ac infertebratau | 40 |
| Ymlusgiaid | 48 |
| Anifeiliaid anwes heb ddatganiad | 63 |
| Equidae | 79 |
| Da byw a ffermir, gan gynnwys gwartheg, defaid, geifr, camelidau, moch a baeddod gwyllt | 190 |
| Anifeiliaid nas cynhwysir mewn unrhyw gategori arall | 50 |
| Gwirio dogfennau ar gyfer trawslwytho | 79”; |

(c) yn Nhabl 2, yn lle Colofn 2 rhodder—

| “*Colofn 2*<br>*Ffi (£) ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny* |
|---|
| 261 am bob llwyth[(2)] |
| 346 am bob llwyth[(2)] |
| 16 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 96 am bob ymweliad” ; |

[(2)] ystyr “llwyth” yw un neu ragor o lwythi o anifeiliaid sy’n tarddu o’r un wlad, sydd wedi cyrraedd ar yr un cyfleuster cludo, ac wedi eu cyflwyno ar gyfer eu gwirio yn y safle rheoli ar y ffin ar yr un pryd, gan berson sy’n gyfrifol am eu mewnforio.

(d) yn Nhabl 3, yn lle Colofn 2 rhodder—

| “*Colofn 2*<br>*Ffi am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd ar 5 Gorffennaf 2023 neu ar ôl hynny* |
|---|
| 21 |
| 28 |
| 14 |
| 16, hyd at uchafswm o 96 am bob ymweliad”. |

*Enw*
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad